

Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes

Dydd Mercher 6 Tachwedd 2019

Noddwyd gan Jayne Bryant AC

Cadeirydd: Jayne Bryant AC (JB)

Ysgrifenyddiaeth: Josh James (JJ) ar ran Diabetes UK Cymru

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Suzy Davies AC, Dai Lloyd AC, Caroline Jones AC

Agorwyd y cyfarfod am 12:30

Eitem 1 - Croeso a chyflwyniadau

JB: Croesawodd y gwesteion a diolch i'r holl fynychwyr am ymuno â ni. Diolchodd hefyd i gyd-aelodau'r GRhG, ac aelodau llewg am eu cyfraniad parhaus, yn ogystal â Maddie Rees o swyddfa JB sy'n cefnogi trefnu cyfarfodydd y GRhG.

JB: Rhoddodd sgwrs fer am y cyflawniadau allweddol ym myd diabetes dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys y gydnabyddiaeth wych o'r gwaith a wnaed gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru a enillodd wobrau QIC y mis blaenorol.

Eitem 2: Busnes y CCB

JB: Gwahoddodd unrhyw un i gynnig ei hun ar gyfer swyddi Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth y GRhG ar Diabetes.

Cafwyd un enwebiad ar gyfer y Cadeirydd; Jayne Bryant AC

Roedd un enwebiad ar gyfer yr Ysgrifenyddiaeth; Josh James ar ran Diabetes UK

Etholwyd y ddau heb unrhyw wrthwynebiad.

JJ: Cyhoeddodd y bu cysylltiad ag aelodau'r GRhG i weld a oeddent yn barod i barhau am y flwyddyn i ddod, roedd pawb wedi cytuno ond awgrymodd Suzy Davies yr hoffai gamu i lawr yn y flwyddyn i ddod.

JJ: Cylchredodd gopïau o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019 a gymeradwywyd gan y GRhG.

Eitem 3: Beth ydych CHI eisiau ei weld yn y Cynllun Clinigol Cenedlaethol?

JJ: Esboniwyd mai'r Cynllun Clinigol Cenedlaethol oedd yr hyn y credir sydd yn disodli'r Cynllun Cyflenwi Diabetes cyfredol sy'n nodi sut y dylid darparu gwasanaethau diabetes ledled Cymru. Mae'n debygol y bydd cynllun newydd yn dod i rym ar ôl i'r cynllun cyfredol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020. O'r herwydd, roedd y GRhG eisiau clywed barn cleifion ac arbenigwyr am yr hyn y dylai'r cynllun newydd hwn ei gynnwys.

JB: Cyflwynodd y panel i ddechrau'r drafodaeth: Dai Williams (DW), Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diabetes UK Cymru; Rob Lee (RL), Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Cleifion Caerdydd a'r Fro; Dr Sarah Davies (SD), Arweinydd Clinigol Diabetes mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

DW: Mae atal yn allweddol, nid triniaethau meddygol aciwt ar gyfer y rhai sy'n sâl yw'r ffordd orau o edrych ar ddiabetes fel cyflwr meddygol. Rhaid i gleifion fod yn rhan o'r datrysiad. Mae'r cynllun cyflawni cyfredol yn dod i ben yn 2020, a hyd yn hyn nid yw Llywodraeth Cymru wedi dod ymlaen gyda chynigion. Gyda 85% o gleifion yn cael eu gweld mewn gofal sylfaenol, mae'n rhaid i'r ffocws symud i feddygfeydd teulu a gofal yn y gymuned.

SD: Rhaid rhoi pwyslais ar ofal cymunedol, rhaid i ni gael gofal sylfaenol yn iawn a dod â'r lefelau enfawr o amrywiad ym mhrofiad cleifion i ben. Cymhlethdodau diabetes yw lle mae'r arian yn cael ei wario felly mae gofal da yn gynnar yn hanfodol i ostwng costau cynyddol diabetes yn ein GIG. Mae atal wrth wraidd hyn i raddau helaeth; ac mae ffyrdd o wneud hyn h.y yr astudiaeth o roi cleifion ar 16 wythnos o ymarfer corff a gofynion dietegol llym.

SD: Mae angen cysylltu strategaeth gordewdra Cymru Gyfan "Pwysau Iach, Cymru Iach" â gwaith ar atal diabetes. Mae angen i ni hefyd wneud mwy o ddefnydd o ragnodi cymdeithasol a chefnogaeth gan gymheiriaid. Mae angen ystyried ein holl ymyriadau o safbwynt amlddiwylliannol, a sut rydym yn cyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau lluosog. Mae angen i ymyriadau hefyd wneud gwell defnydd o offer digidol fel y fideos Pocketmedic sydd wedi'u trwyddedu i'w defnyddio ledled Cymru gan y GIG. Bydd digidol yn helpu gwell rheolaeth, mae angen system arnom fel MyDiabetes yr Alban.

SD: Mae'r data Archwiliad Diabetes Cenedlaethol yn dangos bod prosesau gofal yn lleihau. Mae angen i ni barhau i dalu meddygfeydd fel y gallant fforddio mesur pethau fel albwmn wrinol a'i hoffi i QOF.

RL: Mae angen i sgysiau gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn benodol o amgylch HbA1C ar gyfer pobl â diabetes, fod yn llai beirniadol. Dim ond 10 munud y bydd claf yn gael gyda'i feddyg teulu yn aml iawn. Rhaid i gleifion fod wrth wraidd y cynllun nesaf. Rhaid canolbwyntio ar lywodraethu ac arweinyddiaeth. Dylai fod ymgyrch gymharol ynghylch gordewdra yn yr un modd ag yr amlygodd yr ymgyrch rhoi'r gorau i ysmegu effeithiau negyddol ysmegu ar iechyd. Er mwyn mynd i'r afael â diabetes Math 2 mae angen cyfuniad o ddeddfwriaeth, addysg a meddyginiaeth arnom.

Parhawyd â'r drafodaeth gyda chyfraniadau gan westeion.

JJ: Awgrymwyd, o ystyried y diddordeb sylweddol gan westeion ac aelodau'r GRhG, fod y GRhG yn cynhyrchu adroddiad ym mlwyddyn galendr 2020 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar yr hyn yr hoffai cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ei weld yn y Cynllun Clinigol Cenedlaethol.

Camau a Gytunwyd:

Eitem 4: Pwysau Iach; Cymru Iach; pa ddeddfwriaeth newydd ydym ni eisiau?

JB: Cyflwynodd JJ i drafod y strategaeth gordewdra.

JJ: Esboniodd nawr bod Pwysau Iach, Cymru Iach wedi cael ei lansio, roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar yr hyn a fyddai'n cael ei gynnwys yn y pecyn deddfwriaethol i gynnwys nifer o fesurau yr oedd Diabetes UK a sefydliadau eraill yn Obesity Alliance Cymru wedi gofyn amdanynt fel rhan o'r ymgyngoriad. Roedd Diabetes UK a'r GRhG yn edrych ymlaen

at weld beth fyddai'n cael ei gynnwys fel rhan o'r cynlluniau cyflenwi 2 flynedd a fydd yn gweithredu'r weledigaeth yn y strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach.

Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Diwedd y Cyfarfod

KS: Hyrwyddodd ddiwrnod llesiant BAME ar 14 Tachwedd 2019, Diwrnod Diabetes y Byd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd: Dydd Mercher 29 Ebrill 2020

Diwedd y cyfarfod